**Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol**

**14 Gorffennaf 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James a Mr G Jones.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am-11.45am; 11.55am – 12.40pm)

[Cymerodd Dr R Heath-Davies y Gadair dim ond ar gyfer eitem 1.]

## 1. Ethol Cadeirydd

**Penderfynwyd yn unfrydol** i ethol y Cynghorydd Mrs D Clements yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

## 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

**Penderfynwyd yn unfrydol** i ethol Dr R Heath-Davies yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

### 3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

### 4. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

### 5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Fai 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Fai 2021.

## 6. Materion y Codi

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

## 7. Datganiad o Gyfrifon

Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod drafft o gyfrifon yr Awdurdod 2020/21 wedi'i drosglwyddo i Archwilio Cymru ar 18 Mehefin 2021 a bod y swyddogion ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Archwilio. Rhagwelwyd y byddai adroddiad ISA260 yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd yr wythnos, ac yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 28 Gorffennaf 2021.

Roedd y cyfrifon yn dangos bod y cyllid refeniw ar gyfer 2020/21 wedi cynyddu o'i gymharu â 2019/20 oherwydd y cynnydd yn y Grant Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, gan fod y grant hwn wedi bod ar ffurf grantiau atodol llinell sylfaen, nid oedd wedi denu cyllid Ardoll ychwanegol. Roedd yr incwm a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod wedi gostwng oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 yn Ch1, er bod incwm cynllunio wedi cynyddu o ganlyniad i nifer o geisiadau cynllunio ar raddfa fawr. Roedd y grantiau refeniw penodol i Wasanaeth/Prosiect hefyd wedi cynyddu oherwydd y cyllid ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu am y costau ychwanegol, ac oherwydd colli incwm meysydd parcio yn ogystal â chynllun ffyrlo y Llywodraeth. Roedd yr incwm hwn wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr incwm a gynhyrchir gan yr Awdurdod.

Roedd y cyfrifon hefyd yn dangos manylion y rhaglen gyfalaf, a bod maint y rhaglen wedi cynyddu oherwydd bod yr Awdurdod wedi derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru o dan y gronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy. Rhagwelwyd y byddai gweddill yr arian yn cael ei wario yn ystod rhan gyntaf 2021/22.

Ar y cyfan, nid oedd y gwariant refeniw wedi newid i bob pwrpas o’r flwyddyn 2019/20.

O fewn cyllidebau’r adrannau, roedd cost net y gwariant ar y Gwasanaeth am y flwyddyn yn uwch na'r gyllideb ddiwygiedig o £39k. Roedd manylion y gwahanol feysydd gwasanaeth wedi’u nodi, ac roedd y ffigurau hyn yn cynnwys gorwariant a thanwariant oherwydd llai o incwm yn ogystal â chyfyngiadau’r cyfnod clo a arweiniodd at anallu i wario yn ôl y gyllideb.

Yn olaf, roedd y fantolen gryno yn dangos bod gostyngiad wedi bod yn y rhwymedigaeth pensiwn o ganlyniad i’r symudiadau yng ngwerth yr asedau pensiwn yn dilyn adferiad o fis Mawrth 2020.

Ychwanegodd y Rheolwr Cyllid bod yr addasiadau o ganlyniad i'r archwiliad wedi bod yn fach iawn ac yn ymwneud ag ailddosbarthu rhai asedau sefydlog fel asedau treftadaeth, ac yn ymwneud â’r Cynllun Ffyrlo.

Roedd Deryck Evans o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol, a diolchodd i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith mewn blwyddyn oedd wedi bod yn flwyddyn anodd, ac am ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith a gyflwynwyd. Eglurodd o ran yr asedau, y dylid fod wedi dosbarthu Freshwater East Burrows fel ased treftadaeth, ond nad oedd ei werth wedi'i brisio'n anghywir.

Holodd un Aelod am y rhwymedigaethau pensiwn, a chytunodd Mr Evans a'r Rheolwr Cyllid bod hwn yn faes dyrys, ond bod y symudiadau yn unol â'r rhai mewn rhannau eraill o'r wlad. Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai'r gyfradd gyfrannu gyfredol oedd y pryder mwyaf i'r Awdurdod, a bod hyn wedi gostwng. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid mai'r gyfradd ar 12.6% oedd un o'r isaf ledled Cymru, gyda Chronfa Bensiwn Dyfed yn perfformio'n dda. Hefyd gofynnwyd cwestiwn ynghylch y symiau ar gyfer dyledwyr a chredydwyr a ddangosir ar y fantolen gryno, ac eglurodd y Rheolwr Cyllid bod y ffigurau uwch yn ymwneud â gweithgaredd a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn a'r TAW oedd wedi'i adennill mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr holl Aelodau, i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith caled yn paratoi'r cyfrifon.

**Nodwyd**

## 8. Diweddariad ar Adnoddau Dynol

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am yr amrywiol ddangosyddion Iechyd a Diogelwch, llesiant, ac adnoddau dynol am y chwarter, gyda chymhariaeth â'r chwarteri blaenorol lle roedd ffigurau ar gael. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o waith yr adran o ran datblygu polisïau a phrosiectau eraill; roedd y drafft o Strategaeth Pobl yr adran Adnoddau Dynol 2021-2024 wedi cael ei gyflwyno a'i drafod yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Personnel, a bod copi hefyd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol i gyfeirio ato.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad defnyddiol, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar nifer o agweddau, a rhoddwyd hyn. Ychwanegodd y Rheolwr AD y byddai gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys cymariaethau â blynyddoedd blaenorol, yn cael ei darparu wrth i'r System Adnoddau Dynol Cezanne newydd gael ei sefydlu.

Holodd un Aelod hefyd am effeithiau COVID-19 o ran cau safleoedd. Atebodd y swyddogion y gellid cyflwyno adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol yn amlinellu'r gwaith a wneir i amddiffyn y cyhoedd sy'n ymweld â safleoedd yr Awdurdod, a nodwyd bod llawer o waith wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn ar ddiogelwch ymwelwyr yng nghefn gwlad.

**Nodwyd.**

## 9. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2021

Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2021/22. Roedd yr adroddiad yn

dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant gydag adran ychwanegol yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd y gweithgareddau oedd yn ymateb i'r adferiad Covid 19 wedi'u prif ffrydio i'r ffrydiau gwaith o dan pob un o'r Amcanion llesiant.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mai 2021. Oherwydd y cyfnod adrodd, dim ond data ystadegol ar gyfer ffrydiau gwaith a fewnbynnwyd i'r System Adrodd Perfformiad yn wythnosol ac yn fisol oedd ar gael. Byddai ystadegau chwarter 1 ar gyfer setiau data a gofnodir bob chwarter ar y system yn cael eu cyflwyno yn y Pwyllgor nesaf.

Roedd nifer o'r camau gweithredu yn y categori oren neu goch. Roedd y camau hyn yn ymwneud â gwaith nad oedd eto wedi dechrau, camau yr oedd angen rhagor o waith arnynt cyn gallu symud ymlaen, camau oedd ar stop oherwydd bod swyddog wedi gadael ei swydd, neu bod y camau wedi wynebu oedi parhaus oherwydd effaith Covid 19. Rhagwelwyd y byddai'r camau gweithredu hyn yn symud o goch ac oren i'r categori gwyrdd wrth i'r gwaith ddechrau ac y cymerir camau ymlaen gydol y flwyddyn.

Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu gwaith yr Awdurdod wrth i'r cyfyngiadau Covid gael eu llacio, a hefyd i dynnu sylw at lwyddiant nifer o gynigion cyllido, gan roi manylion am y prosiectau llwyddiannus. Yn olaf, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau'r canllaw i'r sector cyhoeddus ar adrodd ar allyriadau carbon sero net, a thaenlen gysylltiedig, fis Mai 2021. Roedd cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal gyda staff o'r timau perthnasol i weld sut allai'r Awdurdod dreialu'r dull hwn a chydlynu'r gwaith o gasglu data.

Gan ddiolch i'r swyddog am ei hadroddiad, a nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan staff i gyflawni'r amcanion a nodwyd, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y prosiect coetir cymunedol Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, y prosiect caffael, y cynllun noddi iet, ailagor y canolfannau, a'r cynnydd ar y cynllun parhad busnes. Cytunodd y swyddogion i ofyn i'r swyddogion perthnasol gyflwyno gwybodaeth am y tri cyntaf o'r rhain, tra bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr wedi rhoi diweddariad ar waith y Canolfannau. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun Parhad Busnes yn waith sy'n parhau ar y gweill gan fod rhaid i'r cynllun addasu'n barhaus i anghenion yr Awdurdod sy'n newid yn feunyddiol. Serch hynny, rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau bod gweithdrefnau cadarn wrth gefn ar gyfer gwasanaethau TG yn eu lle.

**Nodwyd**

## 10. Grŵp Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu

Roedd yr adroddiad yn egluro bod creu'r cynllun gweithredu a'r grŵp monitro ar ymgysylltu wedi deillio o ganlyniad i'r staff yn clustnodi bod angen i'r Awdurdod gael dulliau o weithredu ar ymgysylltu sy'n cynnwys pob tîm, fyddai'n golygu bod y timau yn rhannu dysgu ac yn defnyddio gwahanol arbenigedd o bob tîm. Roedd y swyddogion wedi cydnabod bod amrediad o wahanol weithgareddau ymgysylltu y gallai'r Awdurdod eu cynnal, ond er mwyn gweld gwelliant yn y dulliau gweithredu ar draws yr Awdurdod o fewn yr adnoddau oedd ar gael, bod angen pennu meysydd clir o flaenoriaeth. Nid oedd y cynllun yn canolbwyntio ar bob gweithgaredd yr Awdurdod o ymgysylltu, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar feysydd allai fod o gymorth i arwain at welliant yn y maes hwn.

Roedd tri maes blaenoriaeth yn y cynllun ar hyn o bryd: ymgysylltu â phobl drwy weithredu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol; datblygu mecanweithiau sy'n galluogi pobl ifanc i ddylanwadu ar waith yr Awdurdod; ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr a defnyddwyr y gwasanaethau; yn ogystal â thri nod tymor hirach, sef cynnwys y staff yn yr ymgysylltu; ymgysylltu a dehongli ar-lein; a'r dulliau integredig o goladu a dadansoddi'r adborth a'r ymgysylltu. Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu'r llwyddiannau hyd yn hyn, oedd yn cynnwys dysgu ar y cyd am y modd yr oedd yr Awdurdod wedi addasu ei ddulliau mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 drwy ddefnyddio dulliau rhithiol/digidol yn 2020/21.

Roedd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth, ar ran y Grŵp Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu, wedi cyflwyno ffeithlun i'r cyfarfod oedd yn darlunio peth o'r gwaith a wnaed, ac wedi croesawu unrhyw sylwadau gan yr Aelodau ar y Cynllun.

Roedd yr Aelodau wedi croesawu'r adroddiad oedd, yn eu barn hwy, yn cynnwys nifer o enghreifftiau o arfer da. Cafwyd peth trafodaeth wedyn ynghylch mwy o hyrwyddo'r Iaith Gymraeg drwy waith yr Awdurdod, a hefyd mwy o ymgysylltu â'r Cynghorau Cymuned. Atebodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi cynnal Seminar gyda'r Cynghorau Cymuned y noson cynt ynghylch yr ymgynghori ar hyn o bryd ar Strategaeth Lefel Uchel yr Awdurdod, a dywedodd y swyddogion ac Aelodau eraill bod ymgysylltu â'r Cynghorau Cymuned yn digwydd yn rheolaidd, ond nad oedd hynny yn cael ei gofnodi bob tro.

**Nodwyd**

[Cyflwynodd y Cynghorydd P Baker ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod.]

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.45am a 11.55am.]

## 11. Adolygu Cydnerthedd – Cynllun Gweithredu APCAP ar y Cynigion i Wella

Atgoffwyd yr Aelodau bod y gwaith o archwilio perfformiad 2020/21 gan Archwilio Cymru wedi canolbwyntio ar gydnerthedd yr Awdurdod a bod adroddiad ar ganfyddiadau'r adolygiad wedi cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fai 2021. Mewn ymateb i'r cynigion i wella oedd yn yr adroddiad roedd y swyddogion wedi creu cynllun gweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r gwelliannau, ac roedd y cynllun hwn ynghlwm wrth yr adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o eglurder ynghylch amseriad y camau gweithredu i ddatblygu dulliau o'r newydd ar barhad busnes, a chytunodd y Prif Weithredwr i fynd ar drywydd hyn. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch y datganiad y gallai Pwyllgorau llai benderfynu parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol, ac eglurodd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd nad penderfyniad i'r Pwyllgorau unigol fyddai hyn gan fod y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau i bob cyfarfod fod yn gyfarfod aml-leoliad, fyddai'n caniatáu i'r Aelodau fynychu naill ai'n bersonol neu drwy gynhadledd fideo yn dibynnu ar eu dewis personol a'u hamgylchiadau. Hefyd cwestiynwyd a fyddai'r camau yn y cynllun yn cyflawni argymhelliad Archwilio Cymru i "symleiddio a gwella'r broses o wneud penderfyniadau". Atebodd y Prif Weithredwr bod cyfarfodydd yr Awdurdod yn gorfod cydymffurfio â'r rheoliadau, ac nad oedd yn sicr i ba raddau y gellid eu symleiddio. Fodd bynnag, y bwriad oedd adolygu gyda'r Aelodau y ffyrdd cyfredol o weithio o ran cynnal cyfarfodydd yr Awdurdod yn yr hydref.

**Nodwyd**

## 12. Adroddiad dilynol Archwilio Mewnol 2020/21

Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad dilynol yr Adolygiad Archwilio Mewnol 2020/21 wedi'i hepgor o'r papurau i gyfarfod blaenorol y Pwyllgor ac felly roedd yr adroddiad wedi'i gynnwys er gwybodaeth yr Aelodau. Roedd yr adroddiad yn ceisio sefydlu'r camau rheoli oedd wedi'u cymryd ar yr argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2019/20.

Dywedodd Jonathan Maddock, o TIAA, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, bod 33 o'r argymhellion wedi cael eu gweithredu, bod 3 wedi'u hystyried ond heb eu gweithredu, a bod 5 yn dal heb dderbyn sylw, a'i fod yn falch o'r camau ymlaen oedd wedi'u cymryd.

**Nodwyd.**

## 13. Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu a Rheoli 2021

Dywedwyd ei bod yn ofynnol i Archwilio Cymru gwblhau eu harchwiliad ariannol yn unol â'r gofynion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs). Fel rhan o ofynion yr ISAs, rhaid oedd gofyn am ddogfennau ystyried a deall nifer o feysydd llywodraethu sy'n effeithio ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. Roedd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ogystal â'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' h.y. y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

Atodwyd nifer o ymholiadau i'r adroddiad. Roedd y Rheolwr Cyllid, Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor wedi paratoi ymatebion. Fodd bynnag, croesawyd sylwadau gan unrhyw Aelodau eraill yn ogystal.

Yn anffodus bu'n rhaid i Deryck Evans o Archwilio Cymru adael y cyfarfod cyn ystyried yr eitem hon, a chymerwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid. Roedd yr Aelodau yn hapus â'r ymateb a baratowyd. Fodd bynnag, awgrymwyd y gellid gwneud pwyntiau ychwanegol, gan nodi bod pob Aelod yn ymwybodol o ganlyniadau apeliadau Rheoli Datblygu; rôl Pwyllgor Safonau'r Awdurdod; a chynnwys ystyried y gofrestr risg ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor. Os nad oedd yn bosibl cynnwys y pwyntiau hyn y tro hwn, awgrymwyd y dylid eu nodi er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

## 14. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth. Nodwyd bod nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r Gofrestr ers y cyfarfod diwethaf gyda rhai risgiau diangen wedi'u dileu ac eraill wedi'u cyfuno.

Ymddiheurodd y Rheolwr Cyllid nad oedd geiriad risg 1 wedi'i argraffu, sef risg ariannol tymor byr o ostyngiad mewn cyllid, ac nad oedd dilyniant y rhifau yn gywir tua diwedd y Gofrestr.

Dywedodd Jonathan Maddock, o TIAA, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, y dylai'r risg gynhenid ar gyfer risg 45 fod yn 8, yn hytrach na 9, ac y dylai'r risg weddilliol ar gyfer risg 14 fod yn 2 yn hytrach na 4. Gan ddiolch iddo, cytunodd y Rheolwr Cyllid i dderbyn y pwyntiau hynny.

Holodd un Aelod am risg 33, a phresenoldeb yr Awdurdod ar y panel i adolygu effaith Brexit. Atebodd y Prif Weithredwr y cyhoeddwyd yn ddiweddar y byddai'r panel yn cael ei ddiddymu, ond byddai'r Awdurdod

yn parhau i fonitro'r sefyllfa, er bod yr effeithiau'n debygol o fod yn anuniongyrchol.

Dywedodd Aelod arall bod rhai gwallau argraffyddol yn y golofn ar ddiweddaru cynnydd, a hefyd gofynnodd a oedd yn fwriad i weithredu argymhelliad yr archwilio mewnol bod pob risg yn cael ei neilltuo i berson a enwir. Atebodd y Prif Weithredwr y gofynnwyd i TIAA adolygu'r gofrestr risg fel rhan o'u rhaglen waith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a'r bwriad oedd cynnal gweithdy i'r Aelodau ar y mater hwn yn yr hydref.

**Nodwyd.**

## 15. Perfformiad y Gyllideb

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid fanylion yr incwm a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod am chwarter cyntaf y flwyddyn. Nododd, wrth osod y gyllideb ar gyfer 2021/22, bod lefelau incwm wedi'u gosod ar 1/3 o gyllideb y flwyddyn flaenorol, ond roedd y ffigurau gwirioneddol yn sylweddol uwch na'r disgwyl gyda gwerthiant nwyddau o £53k o'i gymharu â chyllideb o £22k a ffioedd mynediad o £52k o'i gymharu â chyllideb o £17k. O'i gymharu â ffigurau gwirioneddol incwm 2019/20 yn y meysydd hyn, roedd yr incwm yn is, ond nid o lawer. Roedd incwm y meysydd parcio hefyd wedi perfformio'n dda ar £232k yn erbyn cyllideb o £146k; roedd hyn yn cynnwys incwm o'r pedwar maes parcio oedd wedi cychwyn codi tâl eleni.

Gan fod y sleid a ddangoswyd gan y Rheolwr Cyllid wedi bod yn anodd ei darllen, cytunodd i'w hanfon drwy'r e-bost at yr Aelodau ar ôl y cyfarfod.

**Nodwyd.**

## 16. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021 heb eu diwygio. |